

## **Mewnosod cylch titaniwm magnetig mewn modd laparosgopig ar gyfer clefyd adlif gastro-oesoffagaidd**

26 Gorffennaf 2017

Mae'n ymddangos bod y driniaeth hon yn gweithio'n dda yn y byrdymor, ond nid yw'n glir a yw'n gweithio'n dda yn yr hirdymor (ar ôl tua 5 mlynedd) ar gyfer clefyd adlif gastro-oesoffagaidd. Gellir ei defnyddio, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau hirdymor.

Clefyd adlif gastro-oesoffagaidd yw pan fydd asid yn gollwng o'r stumog i'r oesoffagws (corn gwddf) am nad yw'r sffincter (cylch o gyhyrau) o amgylch pen y stumog yn gweithio'n iawn. Yn y driniaeth hon, sy'n cael ei chynnal o dan anesthetig cyffredinol, rhoddir band bach hyblyg o leiniau magnetig wedi'u plethu o amgylch y tu allan i ran isaf yr oesoffagws, fymryn uwchben y stumog. Y nod yw y bydd yr atyniad magnetig rhwng y gleiniau yn helpu i gadw'r sffincter ar gau i atal adlif asid, ond y bydd yn parhau i ganiatáu i'r person lyncu, torri gwynt neu chwydu.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan [ganllawiau triniaethau ymyriadol](#) NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### **A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthyach am y risgiau a'r

manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

### **Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2583-4